**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# ADRODDIAD GAN Y

# PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002

Ystyriodd y Pwyllgor y Rheoliadau yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2002. Yn dilyn pleidlais, gwnaeth mwyafrif y Pwyllgor argymell y gwelliannau canlynol i’r Rheoliadau:

Dod â’r dyddiad y bydd y gwaharddiad ar fagu ieir mewn systemau cewyll confensiynol yn dod i rym ymlaen:

- *Gwelliant 1 - Yn Atodlen 3B, paragraff 4, newid '2012' i '2006'*

Dod â’r dyddiad y bydd yn ofynnol i bob system cewyll gydymffurfio â’r Rheoliadau yn Atodlen 3C sy’n ymwneud â systemau cewyll gwell ymlaen:

- *Gwelliant 2 - Yn Atodlen 3C, paragraff 1, newid '2012' i '2006'.*

Dod â’r dyddiad y bydd y gwaharddiad ar dorri pigau yn dod i rym ymlaen:

- *Gwelliant 3 - Yn Atodlen 3D, paragraff 9, newid '2010' i '2004'.*

Dod â’r dyddiad y bydd yn ofynnol i bob system sy’n cael ei hadeiladu o’r newydd neu systemau di-gewyll gydymffurfio â’r Rheoliadau yn Atodlen 3A ymlaen:

- *Gwelliant 4 - Yn Atodlen 3A, paragraff 2, newid '2007' i '2006'.*

Dod â’r dyddiad y mae’r dwysedd stocio sydd dros y 9 i bob metr$^2$ sy’n ofynnol yn ôl y Rheoliad yn dal i fod yn gyfreithlon i rai sefydliadau ymlaen:

- *Gwelliant 5 - Yn Atodlen 3A, paragraff 7, newid '2011' i '2005'.*

Glyn Davies AC

Cadeirydd, Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig